

# Cylchlythyr | Circular

## Llesiant ac iechyd: cyllid strategaethau llesiant ac iechyd 2023/24 a gofynion monitro 2022/23 a 2023/24

**Dyddiad:** 15 Medi 2023  
**Cyfeirnod:** W23/24HE  
**At:** Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru  
**Ymateb erbyn:** **Monitro 2022/23:** dydd Gwener 29 Medi 2023  
**Cynllun cyflawni Llesiant ac iechyd, gan gynnwys  
iechyd meddwl 2023/24:** dydd Gwener 3 Tachwedd  
2023  
**Monitro 2023/24:** dydd Gwener 27 Medi 2024  
**Cyswllt:** Enw: Ryan Stokes  
Amanda Phillips  
E-bost: [ryan.stokes@hefcw.ac.uk](mailto:ryan.stokes@hefcw.ac.uk)  
[amanda.phillips@hefcw.ac.uk](mailto:amanda.phillips@hefcw.ac.uk)

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu canllawiau a manylion y dyraniad cyllid o £2m i brifysgolion gyflawni strategaethau llesiant ac iechyd yn 2023/24. Mae'r cylchlythyr yn cynnwys ein gofynion monitro ar gyfer 2022/23 a 2023/24.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch  
mewn fformat hygyrch arall,  
anfonwch e-bost i [info@hefcw.ac.uk](mailto:info@hefcw.ac.uk).



Noddir gan  
Lywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu canllawiau a manylion y dyraniad cyllid o £2m i brifysgolion gyflawni strategaethau llesiant ac iechyd yn 2023/24. Mae'r cylchlythyr yn cynnwys ein gofynion monitro ar gyfer 2022/23 a 2023/24.
2. Dylid darllen y cylchlythyr hwn ar y cyd â'n cylchlythyr [W23/23HE](#) yn dyrannu £2.3m ychwanegol yn 2023/24 i lesiant ac iechyd, gan gynnwys cymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr addysg uwch. Darparwyd y dyraniad ychwanegol hwn yn ein [Llythyr Cylch Gwaith 2023-24](#) ym mharagraff 7.
3. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu'r templed monitro cyfunol ar gyfer y dyraniad hwn o £2m a'r dyraniad ychwanegol o £2.3m ar gyfer llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl a chymorth ariannol i fyfyrwyr mewn addysg uwch.

## Cefndir

4. Yn 2019, fe ymrwymodd yr holl brifysgolion yng Nghymru i fabwysiadu, o 2019/20, dulliau [Step change: prifysgolion sy'n iach yn feddyliol](#) a [Prifysgolion sy'n Fwy Diogel Rhag Hunanladdiad](#). Fe wnaeth cylchlythyr [W19/11HE](#) wahodd strategaethau Llesiant ac Iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl. Fe wnaeth cylchlythyrau [W20/35HE](#), [W21/22HE](#), [W22/29HE](#) gadarnhau cyllid blynyddol i gefnogi cynlluniau cyflawni'r strategaethau.
5. Rydym yn cydnabod y bydd y rhan fwyaf o brifysgolion yn paratoi eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'u hamcanion cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 2024 a 2028 i ateb gofynion [Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus](#) (PSED). Felly, rydym yn disgwyl gweld bod strategaethau a chynlluniau llesiant ac iechyd sefydliadol yn cyd-fynd â chynlluniau cydraddoldeb strategol sefydliadol.

## Diweddariad ar bolisi ac ymchwil llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, a'n disgwyliadau sy'n deillio ohonynt

6. Yn ystod 2022/23, mae'r datblygiadau polisi canlynol a'r canllawiau canlynol ar lefel y DU wedi cael eu cyhoeddi mewn perthynas â llesiant ac iechyd.
7. Yn 2022, fe gyhoeddodd ni ganllawiau diwygiedig ar ddatblygu ac adolygu Siarteri Myfyrwyr ([cylchlythyr W22/20HE: Atodiad B](#)). Mae'r cylchlythyr yn cynnwys disgwyliad bod Siarteri Myfyrwyr yn cynnwys ymrwymiad gan brifysgolion i hybu llesiant ac iechyd myfyrwyr, gan gynnwys iechyd meddwl a chefnogi dulliau sy'n fwy diogel rhag hunanladdiad o 2022/23.
8. Ym mis Hydref 2022, fe gyhoeddodd Universities UK [Suicide-safer universities: sharing information with trusted contacts](#) sy'n darparu canllaw i brifysgolion ynghylch pryd a sut i gynnwys teuluoedd, gofalwyr neu gysylltiadau yr ymddiriedir ynddynt pan fo pryderon difrifol ynghylch diogelwch neu iechyd meddwl myfyriwr.

9. Ym mis Rhagfyr 2022, fe gyhoeddodd Universities UK [Suicide-safer postvention guidance](#) sy'n rhoi cyngor ymarferol i brifysgolion ynghylch sut i ymateb i hunanladdiad myfyriwr.
10. Yn 2023, fe lansiodd [llinell ffôn genedlaethol newydd](#) i bobl y mae arnynt angen cymorth brys gydag iechyd meddwl ledled Cymru. Mae gwasanaeth '111 pwyso 2' y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ar gyfer cymorth iechyd meddwl ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos i bobl o bob oed. Gall pobl ddefnyddio'r rhif hwn os oes ganddynt bryder iechyd meddwl brys eu hunain neu ynghylch rhywun y maent yn ei adnabod.
11. Rydym yn parhau i gyllido [Student Space](#) gyda deunyddiau ar gael yn Gymraeg. Bydd cyllid ar gyfer y prosiect hwn yn parhau, yn amodol ar gadarnhau cyllidebau gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, tan ddiwedd 2024/2025.
12. Ym mis Mawrth 2023, fe gyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru ei [adroddiad ar Gymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch](#).
13. Fe wnaeth yr adroddiad enwi grwpiau penodol<sup>1</sup> a allai wynebu mwy o heriau iechyd meddwl a / neu rwystrau i fynediad at gymorth priodol ac amserol, gan gydnabod hefyd y gall myfyrwyr fod yn aelod o fwy nag un grŵp, ac roedd yn argymhell mabwysiadu dull croestoriadol.
14. Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei [hymateb](#) i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Mae un ar hugain o argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn gamau gweithredu ar gyfer, neu sy'n cynnwys, CCAUC a/neu'r CADY ac felly maent yn dwyn goblygiadau ar draws y sector addysg ôl-16.
15. Yn ystod 2023/24, bydd CCAUC yn cyllido astudiaeth ddichonoldeb o fodol gwasanaeth iechyd meddwl i fyfyrwyr. Mae'r astudiaeth ddichonoldeb yn cyfrannu at ein hymateb i argymhelliad 25 yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg '*adeiladu ar y dysgu a'r gwerthusiad o'r Gwasanaeth Cyswllt Prifysgolion ar gyfer Materion Iechyd Meddwl yng Nghaerdydd a dechrau cynllunio ar gyfer cyflwyno'r model hwn yn llawn ledled Cymru*'. Rydym yn darparu cyllid a chanllawiau ychwanegol ar gyfer prifysgolion yn 2023/24 i ddechrau ymgysylltu â'r astudiaeth ddichonoldeb hon ac unrhyw ddatblygiadau pellach (gweler [W23/23HE](#)).
16. Mewn ymateb i argymhelliad 20 '*i annog darparwyr i ddarparu hyfforddiant iechyd meddwl ystyrlon i bob aelod staff*', rydym yn disgwyl y dylai prifysgolion sicrhau eu bod yn darparu hyfforddiant llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, ystyrlon i staff sy'n ystyried cyd-destun y sefydliadau unigol ac anghenion eu corff myfyrwyr.
17. Wrth ddatblygu a diwygio eu strategaethau llesiant ac iechyd, eu dulliau mwy diogel rhag hunanladdiad a'u polisïau llesiant, rydym yn disgwyl i brifysgolion

---

<sup>1</sup> Adroddiad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru, Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch (2023) Paragraffau 43-93.

ystyried y cyhoeddiadau a'r datblygiadau polisi a restrir uchod a, lle y bo'n briodol, cynnwys camau gweithredu cysylltiedig yn eu cynlluniau cyflawni 2023/24.

18. O ystyried nifer yr argymhellion gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, cymhlethdod y materion y maent yn amcanu at fynd i'r afael â hwy a materion cynaliadwyedd, ein barn ni yw mai'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY), a ddaw'n gwbl weithredol ar 1 Ebrill 2024, sydd yn y sefyllfa orau i ganlyn arni â llawer ohonynt.

### **Ystyriaethau ehangach ynghylch cydraddoldeb a chroestoriadedd mewn perthynas â llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl**

19. Ym mis Rhagfyr 2022, fe gyhoeddodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd Cymru ei adroddiad [Cysylltu'r dotiau: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru](#) gyda 27 o argymhellion. Ym mis Chwefror 2023 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei [hymateb](#) i'r adroddiad. Mae adroddiad y Senedd yn datgan bod 'iechyd meddwl, i raddau helaeth, wedi'i ffurfio gan yr amgylcheddau cymdeithasol, economaidd a ffisegol y mae pobl yn byw ynddynt' ac yn cynnwys adrannau ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl, presgripsiynu cymdeithasol, bod iechyd meddwl yn cael 'ei wneud mewn cymunedau', a chynllunio'r gweithlu.
20. Dylai prifysgolion ystyried argymhellion yr adroddiad wrth ddatblygu eu dulliau llesiant ac iechyd/iechyd meddwl gan gynnwys:
  - i. [Fframwaith Ymarfer sy'n Deall Trawma](#) a fydd yn elfen allweddol o ymgais Llywodraeth Cymru i wneud Cymru'n wlad sy'n deall trawma.
  - ii. Datblygiad fframwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol (gweler yr ymgynghoriad [Datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol](#)).
21. Ym mis Mawrth 2023, fe gyhoeddodd ni gylchlythyr [W23/06HE](#) Addysg uwch ddiogel a chynhwysol: cefnogi cydraddoldeb ac addysg amrywiaeth. Mae'r cylchlythyr yn nodi camau gweithredu penodol y mae Llywodraeth Cymru a/neu CCAUC yn disgwyl i brifysgolion a cholegau a reoleiddir eu cymryd ac mae'n tynnu sylw at y canlynol:
  - [Cynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru](#) gan Lywodraeth Cymru
  - [Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026](#) gan Lywodraeth Cymru a'i chyhoeddiad [Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: cynllun gweithredu lefel uchel y glasbrint](#)
  - [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) gan Lywodraeth Cymru
  - Datblygiadau polisi hil, mynediad a llwyddiant CCAUC; a
  - Datblygiadau polisi llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, CCAUC.
22. Ym mis Mai 2023, fe gynhaliodd CCAUC seminar llesiant ac iechyd ar-lein ar y cyd gyda chanolfan ymchwil a gwerthuso Trawsnewid Mynediad a Deilliannau

Myfyrwyr mewn Addysg Uwch (TASO). Yn ystod 2023, fe gyhoeddodd TASO yr adroddiadau canlynol:

- [What works to tackle mental health inequalities in higher education](#)
  - [Student wellbeing over time: analysing Student Academic Experience Survey data for undergraduates and taught postgraduates](#)
23. Canfu adroddiad TASO ar lesiant myfyrwyr dros amser dystiolaeth i awgrymu bod y grwpiau canlynol o fyfyrwyr yn wynebu mwy o risg o iechyd meddwl gwael:
- Myfyrwyr o aelwydydd â statws economaidd isel
  - Myfyrwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol
  - Myfyrwyr aeddfed
  - Myfyrwyr sy'n lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, cwiar/cwestiynu neu sydd â hunaniaethau rhywiol eraill (LHDTC+) a
  - Myfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.
24. Rydym yn cydnabod y bydd y rhan fwyaf o brifysgolion yn paratoi eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'u hamcanion cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 2024 a 2028 i ateb gofynion [Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus](#) (PSED). Felly, rydym yn disgwyl gweld bod strategaethau a chynlluniau llesiant ac iechyd sefydliadol yn cyd-fynd â chynlluniau cydraddoldeb strategol sefydliadol.
25. Wrth ddatblygu a diwygio eu strategaethau llesiant ac iechyd, eu dulliau mwy diogel rhag hunanladdiad a'u polisïau llesiant, rhaid i brifysgolion ystyried cydraddoldeb a chroestoriadedd, cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a, lle y bo'n briodol, cynnwys camau gweithredu cysylltiedig yn eu cynlluniau cyflawni 2023/24.

### Cyllid llesiant ac iechyd ychwanegol 2023/24

26. Ym mis Gorffennaf 2023, mae ein llythyr cylch gwaith oddi wrth Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn datgan *'Rwy'n falch o allu dyfarnu £2.3m ychwanegol, sydd hefyd wedi'i glustnodi i gefnogi'r agenda iechyd meddwl a lles ar draws y sector'*.
27. Bydd y cyllid ychwanegol o £2.3m yn cael ei ddyrannu trwy gylchlythyr ar wahân gan CCAUC, [W23/23HE](#).
28. Rydym yn disgwyl y bydd cynlluniau cyflawni'n ystyried y cyllid ychwanegol a geir trwy'r cylchlythyr yn dyrannu'r £2.3m, i sicrhau dull cydlynol o ymdrin â llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl. (**gweler Atodiad B**)
29. Rydym yn cyfuno'r broses o fonitro'r cyllid o £2m i gyflawni strategaethau blynyddol gyda'r broses o fonitro'r £2.3m ychwanegol. Caiff templed monitro cyfunol prifysgolion ar gyfer y ddau ddyraniad ei ddarparu yn **Atodiad C** ac **Atodiad C1** sy'n cyd-fynd â'r cylchlythyr hwn.
30. Mae monitro cyfunol wedi'i fwriadu i leddfau baich adrodd yn erbyn dyraniadau llesiant ac iechyd ac mae'n cydnabod y bydd cynlluniau cyflawni prifysgolion yn ysgogi'r modd y cynllunnir ac y defnyddir y cyllid yn ei gyfanrwydd.

## Strategaethau a chynlluniau cyflawni cyllid llesiant ac iechyd 2022/23

31. Rydym yn disgwyl i gynlluniau cyflawni yn 2023/24 barhau i fabwysiadu 'dull prifysgol gyfan', gan gefnogi a diwallu anghenion staff a myfyrwyr ac ystyried pob agwedd ar fywyd prifysgol, gan gynnwys byw a bywyd gwaith. Lle mae prifysgolion yn dewis cyllido gweithgarwch a gwasanaethau llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, â chyllid nad yw wedi dod oddi wrth CCAUC, cynhwyswch y gweithgareddau a'r gwasanaethau hyn a'r ffynonellau cyllid yn y cynlluniau os gwelwch yn dda.
32. Dylai prifysgolion roi ystyriaeth hefyd i gefnogi pontio, dilyniant a llwyddiant ar gyfer ymgeiswyr a myfyrwyr, fel y mae hyn yn berthnasol i lesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, gan weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, colegau a phartneriaid allanol eraill.
33. Dylai cynlluniau cyflawni 2023/24 roi cyfrif am ddyraniadau cyllid y brifysgol yn 2023/24 (£2m a £2.3m) ac unrhyw adnoddau ychwanegol a ddarparwyd o ffynonellau heblaw CCAUC a chynnwys:
  - i) amcanion/bwriadau'r strategaeth llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, sy'n cael eu blaenoriaethu yn 2023/24;
  - ii) gweithgareddau, gwasanaethau, hyfforddiant ac adnoddau, yn erbyn yr amcanion/y bwriadau, gan gynnwys erbyn pa ddyddiadau y bydd gweithgareddau, gwasanaethau ac adnoddau newydd neu sy'n parhau'n cael eu sefydlu a/neu eu cwblhau;
  - iii) gweithgareddau, gwasanaethau, hyfforddiant ac adnoddau a ddarperir yn ddwyieithog a/neu ar wahân yn Gymraeg;
  - iv) gweithgareddau, gwasanaethau, hyfforddiant ac adnoddau gan gynnwys myfyrwyr mewn sefydliadau breiniol/partner,
  - v) gweithgareddau, gwasanaethau, hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer myfyrwyr ôl-radd;
  - vi) gweithgareddau, gwasanaethau, hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol;
  - vii) gweithgareddau, gwasanaethau, hyfforddiant ac adnoddau i sicrhau llesiant ac iechyd staff a myfyrwyr, gan gynnwys iechyd meddwl, yr effeithiwyd arnynt gan aflonyddu, casineb a chamymddwyn a thrais rhywiol, ni waeth beth fo'u hunaniaeth<sup>2</sup>;
  - viii) gweithgareddau, gwasanaethau, hyfforddiant ac adnoddau a ddarperir yn benodol ar gyfer, neu sy'n darparu gwybodaeth ynglŷn â chefnogi, staff a myfyrwyr â nodweddion gwarchoddedig.
  - ix) gweithgareddau, gwasanaethau, hyfforddiant ac adnoddau sy'n ystyried canfyddiadau ac argymhellion hunanasesiad Stepchange: prifysgolion sy'n iach yn feddyliol Universities UK (UUK);
  - x) camau gweithredu y gellir eu hadnabod yn glir i fynd i'r afael â bylchau, blaenoriaethau neu argymhellion a adnabuwyd o ganlyniad i adolygiad y brifysgol gan ddefnyddio offeryn hunanasesu UUK;

---

<sup>2</sup> Dylai ystyriaethau o ran trais ar sail hunaniaeth gynnwys, ymhlith eraill, rhywedd, hil, crefydd a chred, gan gydnabod natur groestoriadol y nodweddion hyn

- xi) cadarnhad yn nodi sut y bydd cynnydd yn erbyn y cynllun cyflawni'n cael ei fonitro a'i fesur;
  - xii) eglurhad yn nodi sut y mae ystod gynrychiolaidd o fyfyrwyr, staff a phartïon â buddiant wedi cael ei chynnwys wrth ddatblygu'r cynllun;
  - xiii) eglurhad yn nodi sut y mae canfyddiadau asesiad effaith wedi goleuo'r amcanion/bwriadau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd i'w cyflawni/darparu;
  - xiv) eglurhad yn nodi sut y bydd adroddiadau ar fonitro ac adolygu'r cynllun cyflawni'n cael eu cyflwyno i a thrwy strwythurau llywodraethu'r brifysgol.
34. Hefyd, rydym yn disgwyl i gynlluniau cyflawni ystyried cydraddoldeb a chroestoriadedd trwy ddefnyddio asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, gan gynnwys, ymhlith eraill, y grwpiau canlynol o fyfyrwyr a enwyd yn adroddiadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a TASO:
- Myfyrwyr anabl a myfyrwyr â chyflyrau iechyd hirdymor
  - Myfyrwyr rhyngwladol
  - Myfyrwyr LHDTTC+
  - Myfyrwyr ôl-radd
  - Myfyrwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol
  - Myfyrwyr o gefndir economaidd-gymdeithasol is
  - Myfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu / sy'n dychwelyd ar ôl saib yn eu haddysg.
  - Myfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

## Cyllid a monitro

35. Rydym yn disgwyl i brifysgolion reoli a gwario'u dyraniad ar gyfer cynllun cyflawni 2023/24 yn llawn yn ystod y flwyddyn, o ystyried mai ein bwriad yw cyllido strategaethau llesiant ac iechyd yn yr hirdymor, yn amodol ar ailddatgan llinellau'r gyllideb gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Mae hyn hefyd yn galluogi CCAUC i ddarparu sicrwydd ar gyfer Llywodraeth Cymru bod prifysgolion yn neilltuo adnoddau priodol i gefnogi llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, myfyrwyr a staff.
36. Byddwn ni neu'r CADY yn adhawlio unrhyw danwariant heb ei neilltuo ar ddiwedd 2023/24, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, a byddwn ni neu'r CADY yn adhawlio cyllid/dal cyllid yn ôl yn y dyfodol lle mae'r broses o adrodd yn erbyn ein gofynion monitro'n anfoddhaol neu'n gyfyngedig.
37. Bydd cyllid ar gyfer cynlluniau cyflawni strategaethau llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, ar gyfer 2023/24 yn cael ei ddyrannu mewn un taliad, ar sail cyfrif pennau myfyrwyr, fel a nodir yn **Atodiad A**.
38. Yn 2023/24 byddwn yn dyrannu cyllid mewn **un gyfran** a delir ym **mis Rhagfyr 2023** yn amodol ar y canlynol:
- i. cyflwyno adroddiadau monitro llesiant ac iechyd gan gynnwys iechyd meddwl 2022/23 gan gynnwys cadarnhad bod cyllid 2022/23 wedi cael ei ddefnyddio'n foddhaol. ([gweler templed adroddiad monitro 2022/23](#))

**Y dyddiad ar gyfer cyflwyno'r adroddiad hwn yw dydd Gwener 29 Medi 2023;**

- ii. cynlluniau cyflawni Llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, 2023/24 (gweler y templed a ddarperir yn **Atodiad B ac Atodiad B1**);

**Y dyddiad ar gyfer cyflwyno'r adroddiad hwn yw dydd Gwener 3 Tachwedd 2023**

- 39. Mae **Tabl 1** yn y cylchlythyr hwn yn nodi'r dyddiadau cyflwyno adroddiadau.
- 40. Rhaid cyflwyno templed adroddiad monitro 2023/24 (**Atodiad C**) erbyn **27 Medi 2024**.

**Amserlen**

**Tabl 1**

<b>Gofynion cyflwyno adroddiadau</b>	<b>Dyddiad cyflwyno</b>
Adroddiad monitro Llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, <b>2022/23</b> wedi'i gwblhau.	<b>Dydd Gwener 29 Medi 2023</b>
Cynllun cyflawni Llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, 2023/24 wedi'i gwblhau	<b>Dydd Gwener 3 Tachwedd 2023</b>
Templed adroddiad monitro 2023/24 wedi'i gwblhau	<b>Dydd Gwener 27 Medi 2024.</b>

**Rhagor o wybodaeth / ymatebion i**

- 41. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Ryan Stokes (e-bost [ryan.stokes@hefcw.ac.uk](mailto:ryan.stokes@hefcw.ac.uk)).
- 42. Ymatebion i gael eu cyflwyno i Amanda Phillips (e-bost [amanda.phillips@hefcw.ac.uk](mailto:amanda.phillips@hefcw.ac.uk)).

**Asesu effaith ein polisiau**

- 43. Rydym wedi diweddarau ein hasesiad effaith parhaus i ystyried cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Fe wnaethom hefyd ystyried effaith polisiau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant ni. Cysylltwch ag [equality@hefcw.ac.uk](mailto:equality@hefcw.ac.uk) i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith.
- 44. Mae canfyddiadau ein hasesiad effaith yn cynnwys:



- adnabod effeithiau cadarnhaol ar y nodweddion gwarchoddedig canlynol: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau negyddol.
- cadarnhau bod y cyllid yn cefnogi pump o'r saith nod llesiant ac yn ystyried y pum ffordd o weithio.
- nodi bod y canllawiau a'r broses fonitro ar gyfer y cyllid yn ceisio cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

### Dyraniadau cyflawni strategaethau llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, 2023/24

Prifysgol	Dyraniad 2023/24 £
Prifysgol De Cymru	316,057
Prifysgol Aberystwyth	100,905
Prifysgol Bangor	143,672
Prifysgol Caerdydd	462,768
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	204,314
Prifysgol Abertawe	304,425
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	172,412
Prifysgol Wrecsam	94,335
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	201,111
Cyfanswm	2,000,000

#### Nodiadau

Data wedi'i ddilysu o gofnod myfyrwyr HESA 2021/22

Cyfrif pennau – poblogaeth gofrestru safonol HESA, pob dull a lefel, wedi'i lleihau i gyfrif pennau lle mae gan fyfyrwyr fwy nag un cofrestriad

Defnyddiwyd yr un dull, gan ddefnyddio data myfyrwyr 2018/19, i ddyrannu:

[W20/08HE](#), [W20/29HE](#) a [W20/35HE](#)

Defnyddiwyd yr un dull, gan ddefnyddio data myfyrwyr 2019/20, i ddyrannu £2M ar gyfer

[W21/22HE: Well-being and health: well-being and health strategy funding 2021/22](#)

Defnyddiwyd yr un dull, gan ddefnyddio data myfyrwyr 2020/21, i ddyrannu £2.138M ar

gyfer [W22/29HE: Llesiant ac iechyd: cyllid strategaethau llesiant ac iechyd 2022/23 a gofynion monitro ar gyfer 2021/22 a 2022/23](#).

**Atodiad B – Tabled cynllun cyflawni strategaeth llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, 2023/24**

<b>Prifysgol</b>		
<b>Enw a manylion e-bost y cyswllt arweiniol:</b>		
<b>Cynllun cyflawni strategaeth llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, 2023/24</b>	Y brifysgol i fewnbynnu cyfanswm y dyraniad £	
<b>Llesiant ac iechyd a chymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr addysg uwch 2023/24</b>	Y brifysgol i fewnbynnu cyfanswm y dyraniad £	

**Ymateb erbyn:** i gael ei ddychwelyd erbyn **Dydd Gwener 3 Tachwedd 2023.**

**Dychwelwch eich ceisiadau i [amanda.phillips@hefcw.ac.uk](mailto:amanda.phillips@hefcw.ac.uk)**

Rydym yn dyrannu **£2m** i roi cymorth i brifysgolion gyflawni strategaethau llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, yn 2023/24. Mae dyraniadau prifysgolion i'w cael yn y cylchlythyr hwn yn **Atodiad A**

Yn 2023/24, rydym yn dyrannu **£2.3m** o gyllid ychwanegol i brifysgolion a cholegau a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru i gefnogi llesiant ac iechyd a rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch. Dylai prifysgolion ddarllen y cylchlythyr hwn ar y cyd â'r cylchlythyr [W23/23HE](#), a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023. Mae dyraniadau prifysgolion i'w cael yn **Atodiad B** sy'n cyd-fynd â'r cylchlythyr hwnnw.

Rydym yn disgwyl i gynlluniau cyflawni yn 2023/24 barhau i fabwysiadu 'dull prifysgol gyfan', gan gefnogi a diwallu anghenion staff a myfyrwyr ac ystyried pob agwedd ar fywyd prifysgol, gan gynnwys bywyd gwaith.

Rhaid i weithgareddau, gwasanaethau, hyfforddiant ac adnoddau llesiant ac iechyd prifysgolion a gyllidir o'r £2m a'r £2.3m gael eu cynnwys yn y daenlen gweithgareddau, gwasanaethau ac adnoddau a gyllidir fel rhan o gynllun cyflawni 2023/24. **Gweler Adran A - Atodiad B1.**

## Adran A

Cwblhewch y daenlen gweithgareddau, gwasanaethau, hyfforddiant ac adnoddau a gyllidir (Atodiad B1) ar gyfer:

- Cyllid cynllun cyflawni strategaeth llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl; a
- Llesiant ac iechyd a chymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr addysg uwch.

## Adran B

Sut y mae'r gweithgareddau, gwasanaethau, hyfforddiant ac adnoddau llesiant ac iechyd a nodir yn Adran A – Atodiad B1

Yn cyfrannu at: ddatblygiadau'r brifysgol o ran strategaethau Prifysgolion Mwy Diogel Rhag Hunanladdiad UUK?

Uchafswm o 500 o eiriau

Yn cyfrannu at: yr argymhellion canlynol gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru ([Argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#))?

Uchafswm o 500 o eiriau

**Argymhelliad 20.** *Darparu hyfforddiant iechyd meddwl ystyrion i bob aelod staff, sy'n ystyried cyd-destun a chorff myfyrwyr pob sefydliad unigol. Dylai hyfforddiant o'r fath rymuso staff i ddarparu cymorth priodol, yn cynnwys manylion y cymorth y gellir ei ddarparu gan y sefydliad a phartneriaid lleol eraill i alluogi cyfeirio effeithiol lle bo'n briodol. Dylai Llywodraeth Cymru annog pob darparwr i sicrhau bod hyfforddiant o'r fath ar gael i bob aelod staff, yn staff cymorth ac academiaidd, ac i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ar contractau allanol i'r sefydliad. Trwy gynnig hyfforddiant o'r fath, dylai darparwyr sicrhau amser wedi'i neilltuo i staff fynychu hyfforddiant.*

**A yw gweithgareddau, gwasanaethau ac adnoddau cynllun cyflawni llesiant ac iechyd y brifysgol yn cyfrannu at argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ddarparu hyfforddiant iechyd meddwl ar gyfer staff?**

**'Ydynt' neu 'Nac ydynt' (Dilëer fel y bo'n briodol)**

**Os mai 'ydynt' yw eich ateb** darparwch y sail resymegol ar gyfer yr hyfforddiant, gan gynnwys y dystiolaeth ar gyfer ei ddarparu, ac at bwy y mae'r hyfforddiant wedi'i dargedu (galwedigaethau)

**A oes gan y brifysgol gynllun hyfforddiant staff llesiant ac iechyd ar gyfer 2023/24?**

**'Oes' neu 'Nac oes' (Dilëer fel y bo'n briodol)**

**Os mai 'oes' yw eich ateb** darparwch y blaenoriaethau hyfforddiant ar gyfer 2023/24?

**Argymhelliad 22.** *Darparu hyfforddiant iechyd meddwl ystyrion i fyfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf o astudio. Dylid cyflwyno'r hyfforddiant hwn mewn amrywiaeth o ddulliau sy'n sicrhau ei fod yn hygyrch i bob myfyriwr, a dylid ei gynnig sawl gwaith gydol y flwyddyn gyntaf.*

**A yw gweithgareddau, hyfforddiant, gwasanaethau ac adnoddau eich cynllun cyflawni llesiant ac iechyd yn cyfrannu at argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ddarparu hyfforddiant iechyd meddwl i fyfyrwyr?**

**'Ydynt' neu 'Nac ydynt' (Dilëer fel y bo'n briodol)**

**Os mai ‘ydynt’ yw eich ateb** darparwch y sail resymegol ar gyfer yr hyfforddiant, gan gynnwys y dystiolaeth ar gyfer ei ddarparu a’r rhestr o flaenoriaethau hyfforddiant myfyrwyr ar gyfer 2023/24?

**Argymhelliad 21.** *Bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid pellach i CCAUC ac yna’r Comisiwn i gynorthwyo i ehangu cymorth iechyd meddwl i fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai’r cyllid hwn fod yn ymrwymiad parhaus i sicrhau hirhoedledd cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.*

**A yw gweithgareddau, gwasanaethau, hyfforddiant ac adnoddau eich cynllun cyflawni llesiant ac iechyd yn cyfrannu at argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch ehangu cymorth iechyd meddwl i fyfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg?**

‘Ydynt’ neu ‘Nac ydynt’ (Dilëer fel y bo’n briodol)

**Os mai ‘ydynt’ yw eich ateb pa ganran o hyfforddiant ac adnoddau sydd ar gael yn Gymraeg?**

**Argymhelliad 25** *Adeiladu ar y dysgu a’r gwerthusiad o’r Gwasanaeth Cyswllt Prifysgolion ar gyfer Materion Iechyd Meddwl yng Nghaerdydd a dechrau cynllunio ar gyfer cyflwyno’r model hwn yn llawn ledled Cymru.*

**A fydd gweithgareddau, gwasanaethau ac adnoddau eich cynllun cyflawni llesiant ac iechyd yn cyfrannu at argymhelliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i adeiladu ar y dysgu a’r gwerthusiad o’r Gwasanaeth Cyswllt Prifysgolion ar gyfer Materion Iechyd Meddwl yng Nghaerdydd?**

‘Byddant’ neu ‘Na fyddant’ (Dilëer fel y bo’n briodol)

**Os mai ‘byddant’ yw eich ateb rhowch eglurhad.**

**Yn cyfrannu at: anghenion penodol staff a myfyrwyr â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys ystyriaethau o ran croestoriadedd?**

Rydym yn disgwyl i gynlluniau cyflawni ystyried cydraddoldeb a chroestoriadedd trwy ddefnyddio asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, gan gynnwys data sefydliadol a chan gynnwys, ymhlith eraill, y grwpiau canlynol o fyfyrwyr a enwir yn adroddiadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a TASO:

- Myfyrwyr anabl a myfyrwyr â chyflyrau iechyd hirdymor
- Myfyrwyr rhyngwladol
- Myfyrwyr LHDTTC+
- Myfyrwyr ôl-radd
- Myfyrwyr o gefndir ethnig lleiafrifol
- Myfyrwyr o gefndir economaidd-gymdeithasol is
- Myfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu / sy'n dychwelyd ar ôl saib yn eu haddysg.
- Myfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Uchafswm o 500 o eiriau

**A yw'r strategaeth a'r cynllun cyflawni wedi cael eu hasesu o ran yr effaith ar gydraddoldeb ac wedi cael eu hasesu yn erbyn safonau'r Gymraeg a'r nodau a'r ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?**

**Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol a sut fydd y rhain yn cael eu cymryd i ystyriaeth?**

**Ydych chi hefyd yn cynnig gweithgareddau, gwasanaethau ac adnoddau wedi'u targedu'n benodol ar gyfer unrhyw grwpiau o fyfyrwyr a enwir yn adroddiadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a TASO?**

**Os yw eich atebion yn gadarnhaol darparwch grynodedb.**

<b>Beth yw'r strwythurau llywodraethu ar gyfer monitro a rheoli'r strategaeth a'r cynllun cyflawni?</b>	
<b>Sut fydd ystod gynrychiolaidd o staff a myfyrwyr yn cael ei chynnwys yn y broses o adolygu, datblygu a monitro'r strategaeth a'r cynllun cyflawni?</b>	

### Cymeradwyaeth

Trwy lofnodi'r cynllun cyflawni a'i gyflwyno i CCAUC mae'r Brifysgol yn:

- cadarnhau y bydd y cyllid gan CCAUC yn 2023/24 a ddarperir gan y ddau gylchlythyr sy'n ymwneud â Llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, sy'n dyrannu £2m a £2,3m yn cael ei ddefnyddio i gefnogi adnoddau, gweithgareddau, hyfforddiant a gwasanaethau fel a nodir yn y cynllun cyflawni hwn;
- ymrwmo i ddarparu'r adnoddau, gweithgareddau a gwasanaethau a gyllidir gan CCAUC fel a nodir uchod; ac
- ailddatgan ei hymrwymiad i fabwysiadu Fframweithiau *Stepchange: prifysgolion sy'n iach yn feddyliol* a Phrifysgolion Mwy Diogel rhag Hunanladdiad UUK.

<b>Enw'r Is-Ganghellor:</b>			
<b>Llofnod (Is-Ganghellor):</b>		<b>Dyddiad:</b>	





## Cynllun cyflawni strategaeth llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl Adroddiad monitro 2023/24

Ymateb erbyn: 27 Medi 2024

Dychwelwch i: Amanda Phillips ([amanda.phillips@hefcw.ac.uk](mailto:amanda.phillips@hefcw.ac.uk))

Mae'r templed monitro hwn ar gyfer 2023/24 yn nodi'r data, y dystiolaeth a'r wybodaeth y dylid ei dychwelyd atom ni fel adroddiad diwedd blwyddyn i ddarparu sicrwydd o gynnydd a pherfformiad.

<b>Enw'r brifysgol</b>	
<b>Enw a chyfeiriad e-bost cyswllt y brifysgol</b>	
<b>Cyllid strategaeth llesiant ac iechyd 2023/24</b> (£2m. Darperir dyraniadau prifysgolion yn y cylchlythyr hwnnw yn Atodiad A)	£
<b>Llesiant ac iechyd a chymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr addysg uwch 2023/24</b> (Darperir dyraniadau prifysgolion yn y cylchlythyr hwnnw yn Atodiad B)	£

Roedd y ddau gylchlythyr a nodir uchod yn gofyn am gyflwyno cynlluniau cyflawni strategaethau llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl 2023/24 i ni fel un o amodau'r cyllid.

## Rhan 1 Gwybodaeth fonitro

### Gwybodaeth feintiol

Darparwch yr wybodaeth feintiol fel a nodir yn y daenlen sydd wedi'i hatodi (**Atodiad C1**).

## Rhan 2 gwybodaeth am gynnydd gyda'r strategaeth llesiant ac iechyd

Darparwch ddiweddariad am y cynnydd yn 2023/24 tuag at fynd i'r afael ag argymhellion *Hunanasesiad Stepchange: prifysgolion sy'n iach yn feddyliol* UUK y Brifysgol,

Uchafswm o 500 o eiriau  
Byddai brawddegau ar ffurf pwyntiau bwled yn ddull adrodd boddhaol

Darparwch ddiweddariad cynnydd ar gamau gweithredu yn 2023/24 i gyflawni strategaeth a chynlluniau gweithredu prifysgol fwy diogel rhag hunanladdiad y brifysgol, gan gynnwys crynodeb o unrhyw ddiwygiadau ac adolygiadau.

Uchafswm o 500 o eiriau  
Byddai brawddegau ar ffurf pwyntiau bwled yn ddull adrodd boddhaol

Crynowch sut y mae strategaeth /cynllun cyflawni llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, y Brifysgol yn cael ei (g)oleuo gan ac yn goleuo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd o fis Ebrill 2024

Uchafswm o 500 o eiriau
-------------------------

**Astudiaethau Achos**

Darparwch ddwy astudiaeth achos, ar gyfer y naill ddyraniad cyllid a'r llall yn 2023/24, fel enghreifftiau o arfer (y naill yn ymwneud â gweithgareddau, hyfforddiant, adnoddau neu wasanaethau i gefnogi staff a'r llall yn ymwneud â gweithgareddau, hyfforddiant, adnoddau neu wasanaethau ar gyfer myfyrwyr), sydd heb fod yn fwy na 500 o eiriau yr un. Wrth gyflwyno'r astudiaethau achos hyn, dylai prifysgolion fod yn ymwybodol y gallwn ddewis eu cyhoeddi i rannu arfer a darparu sicrwydd o gamau gweithredu prifysgolion a'u defnydd o gyllid. **Ni ddylai astudiaethau achos enwi staff na myfyrwyr ond dylent ganolbwyntio ar y gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarparwyd.**

Os oes gan brifysgolion unrhyw adnoddau newydd a/neu arloesol neu brofiadau cadarnhaol o hyfforddiant a ddarparwyd yn allanol ac os hoffent eu hyrwyddo neu eu rhannu'n fwy eang gyda'r sector, darparwch ddolenni a/neu ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda.

**Dyraniad cyllid cynllun cyflawni llesiant ac iechyd 2023/24 (£2m)**

<b>Astudiaeth achos 1</b>
Uchafswm o 500 o eiriau a lle y bo'n bosibl, cynhwyswch ddolenni a/neu ddelweddau nad ydynt yn datgelu pwy yw unigolion.

<b>Astudiaeth Achos 2</b>
Uchafswm o 500 o eiriau a lle y bo'n bosibl, cynhwyswch ddolenni a/neu ddelweddau nad ydynt yn datgelu pwy yw unigolion.

Rhan 3

Cyllid

**Dyraniad cyllid cynllun cyflawni llesiant ac iechyd 2023/24 (£2m)**

Sylwer ein bod yn defnyddio ‘cyllid wedi’i neilltuo’ gan olygu gwariant y cytunwyd arno fel na ellir ei ddychwelyd i’r Brifysgol ond bod dim anfoneb wedi cael ei gyflwyno ar gyfer y cyllid eto neu fod y cyllid heb gael ei dalu’n llawn eto. Dylai cyllid wedi’i neilltuo fod ar gyfer gweithgareddau, gwasanaethau, adnoddau neu hyfforddiant a ddarparwyd yn 2023/24. Rhaid i unrhyw weithgareddau, adnoddau, hyfforddiant neu wasanaethau a fydd yn cael eu darparu yn 2024/25 gael eu cyllido o ddyraniadau 2024/25.

Dyraniad cyllid cynllun cyflawni llesiant ac iechyd 2023/24	£
<p>Cadarnhewch fod dyraniad cyllid cynllun cyflawni llesiant ac iechyd y Brifysgol wedi cael ei ddefnyddio’n llawn erbyn 31 Gorffennaf 2024 at y dibenion a amlinellwyd yn eich cynllun cyflawni 2023/24 a gyflwynwyd i CCAUC.</p> <p>Lle ceir tanwariant heb ei ddyrannu darparwch eglurhad byr ar gyfer hyn a swm y tanwariant:</p>	<p><i>[Dilëer fel y bo’n briodol]</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Gallaf/Ni allaf gadarnhau bod y dyraniad wedi cael ei ddefnyddio’n llawn erbyn 31 Gorffennaf 2024.</i></li> <li>• <i>Mae/Nid oes tanwariant.</i></li> <li>• <i>Lle ceir tanwariant, rwy’n cadarnhau mai swm y tanwariant yw £x a</i></li> </ul> <p><i>bod y rheswm dros y tanwariant fel a ganlyn:</i></p>
<p>Os oes tanwariant, faint ohono sydd wedi’i neilltuo ac at ba ddiben?</p> <p><i>[Sylwer ein bod yn disgwyl i unrhyw danwariant wedi’i neilltuo gael ei ddyrannu o fewn dau fis i ddyddiad diwedd y prosiect.]</i></p>	<p><i>[Cwblhewch yr adran hon fel y bo’n briodol]</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Mae/Nid oes tanwariant wedi’i neilltuo</i></li> <li>• <i>Lle ceir tanwariant wedi’i neilltuo y swm yw £x.</i></li> <li>• <i>Bydd tanwariant wedi’i neilltuo’n cael ei ddyrannu’n llawn erbyn [dyddiad].</i></li> <li>• <i>Mae’r rheswm dros danwariant wedi’i neilltuo fel a ganlyn:</i></li> </ul>

**Llesiant ac iechyd a chymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr addysg uwch 2023/24 (£2.3m)**

<p>Dyraniad llesiant ac iechyd a chymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr addysg uwch 2023/24</p>	<p>£</p>
<p>Cadarnhewch fod dyraniad cyllid cynllun cyflawni llesiant ac iechyd y Brifysgol wedi cael ei ddefnyddio'n llawn erbyn 31 Gorffennaf 2024 at y dibenion a amlinellwyd yn eich cynllun cyflawni 2023/24 a gyflwynwyd i CCAUC.</p> <p>Lle ceir tanwariant heb ei ddyrannu darparwch eglurhad byr ar gyfer hyn a swm y tanwariant:</p>	<p><i>[Dilëer fel y bo'n briodol]</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Gallaf/Ni allaf gadarnhau bod y dyraniad wedi cael ei ddefnyddio'n llawn erbyn 31 Gorffennaf 2024.</i></li> <li>• <i>Mae/Nid oes tanwariant.</i></li> <li>• <i>Lle ceir tanwariant, rwy'n cadarnhau mai swm y tanwariant yw £x a</i></li> </ul> <p><i>bod y rheswm dros y tanwariant fel a ganlyn:</i></p>
<p>Os oes tanwariant, faint ohono sydd wedi'i neilltuo ac at ba ddiben?</p> <p><i>[Sylwer ein bod yn disgwyl i unrhyw danwariant wedi'i neilltuo gael ei ddyrannu o fewn dau fis i ddyddiad diwedd y prosiect.]</i></p>	<p><i>[Cwblhewch yr adran hon fel y bo'n briodol]</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Mae/Nid oes tanwariant wedi'i neilltuo</i></li> <li>• <i>Lle ceir tanwariant wedi'i neilltuo y swm yw £x.</i></li> <li>• <i>Bydd tanwariant wedi'i neilltuo'n cael ei ddyrannu'n llawn erbyn [dyddiad].</i></li> <li>• <i>Mae'r rheswm dros danwariant wedi'i neilltuo fel a ganlyn:</i></li> </ul>

**Datganiad sicrwydd**

Wrth gwblhau'r datganiad sicrwydd hwn rydych yn cadarnhau bod y brifysgol:

- wedi dyrannu'r cyllid gan CCAUC i roi cymorth i gyflawni'r strategaeth llesiant ac iechyd fel a nodir uchod;
- wedi dyrannu'r cyllid gan CCAUC i gefnogi llesiant ac iechyd a chymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr addysg uwch yn 2023/24 fel a nodir uchod;

## Cylchlythyr CCAUC W23/24HE: Atodiad C

- wedi defnyddio'r cyllid gan CCAUC at y dibenion yr oedd wedi'i fwriadu ar eu cyfer fel a nodir uchod;
- wedi cynnal asesiad o effaith defnyddio'r cyllid i ddangos sut y gall fod o fudd i bobl â nodweddion gwarchoddedig;
- wedi cynnwys myfyrwyr, staff a phartion eraill â buddiant yn y broses o bennu'r blaenoriaethau cyllido; ac
- wedi cyflawni cynllun cyflawni 2023/24 yn llawn neu wedi trafod hyn gyda CCAUC ac wedi darparu gwybodaeth fanwl i roi cyfrif am ei gyflawni'n rhannol.

<b>Llofnod (Is-Ganghellor):</b>		<b>Dyddiad:</b>	
<b>Enw'r Is-Ganghellor mewn Llythrennau Breision</b>			

Ar ôl eu cwblhau, dychwelwch y datganiad monitro a'r astudiaethau achos i [amanda.phillips@hefcw.ac.uk](mailto:amanda.phillips@hefcw.ac.uk) erbyn **27 Medi 2024**.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Ryan Stokes – [ryan.stokes@hefcw.ac.uk](mailto:ryan.stokes@hefcw.ac.uk).

